
GRŴP DARGANFOD HEN DAI CYMREIG DISCOVERING OLD WELSH HOUSES GROUP

Dathlu Treftadaeth Cymru drwy astudio tai traddodiadol a bywydau'r bobl fu'n byw ynddynt.

CYLCHLYTHYR 19

Rhagfyr 2016

EIN GWEFAN <http://discoveringgoldwelshhouses.co.uk> yw prif sianel gyfathrebu'r Grŵp – defnyddiwch hi i weld mwy o fanylion am y digwyddiadau diweddar a'r rhai sydd ar ddod, ac i edrych ar ein llyfrgell sy'n cynyddu'n gyson ac ar nodweddion eraill.

O'R GADAIR:

Wel onid ydyw wedi bod yn Hydref hyfryd? Ac mae'r gwaith wedi mynd ymlaen yn gyflym yn ein prosiectau yng ngogledd ddwyrain Cymru. Bu cyllido drwy grantiau yn rhannol lwyddiannus ac rydym yn dal i chwilio am berson a allai ein helpu yn y cyswllt hwn – mae'r gwaith ar hyn o bryd yn llyncu llawer o amser Margaret. Llwyddwyd i godi £820 clir yn yr 'Ocsiwn Hen Bethau', swm hynod o dda a chysidrow taw dyma ein hymgaiso gyntaf, ac mae ein diolch yn mynd i bawb a fu yn ein helpu gyda'r fath frwdfrydedd (gweler y manylion llawn a'r lluniau ar ein [blog](#)).



Ocsiwn/Auction

Fe hoffem ymestyn ein ymholiadau i gynnwys y maes hynod o ddi-ddorol a braidd yn esoterig o arferion anghyffredin a marciau rhyfedd sydd i'w cael yn ein Tai dan sylw. Mae'r rhain yn cynnwys marciau gwrrachod, llosgiadau ar drawstiau a dodrefn, marciau seiri meini (masiyniaid), ffynhonnau, esgynrisiau, manau cuddio ayyb, ayyb. Felly os dowch ar draws unrhywbeth rhyfedd ac anghyffredin, anfonwch fanylion cryno ataf fi ar richard@dmmwales.com.

Yn olaf, ond yr un mor bwysig, fe hoffwn ddymuno Nadolig hapus a heddychlon i chi i gyd.

Richard Cuthbertson, Cadeirydd

Celebrating Welsh Heritage through the study of traditional houses and the lives of the people who lived in them.

NEWSLETTER 19

December 2016

OUR WEBSITE <http://discoveringgoldwelshhouses.co.uk> is the Group's main channel of communication – please visit it to see details of recent and forthcoming events and to look at our growing library and other features.

FROM THE CHAIR:

Well it's been a beautiful Autumn and work has been going on apace in our North East Wales projects. Grant funding has been partly successful and we are still looking for someone who may be able to help us in this area which currently takes up much of Margaret's time. The 'Antique' Auction raised £820 net, not a bad sum for our first try, many thanks to everyone who helped with this so enthusiastically (full details and pictures are on the [blog](#)).



Ymchwil gyda Pherchenogion Tai/Research with House Owners
We wish to extend our inquiries to include the very interesting and somewhat esoteric area of strange customs and marks found in our subject Houses. These include witch marks, burns on beams and furniture, masons marks, wells, mounting steps, hiding places, etc., etc., so if you know of anything strange or unusual, please send brief details to me at richard@dmmwales.com.

Last but not least I wish you all a happy and peaceful Christmas.

Richard Cuthbertson, Chairman

NEWYDDION DIWEDDARAF

Drwg iawn gennym gofnodi marwolaeth **David Williams**, un o'n haelodau a ymchwiliodd i hanes tai Bodwrdda a Phenhyddgan yn Llŷn. Roedd yn farnwr amlwg ac yn gyfreithiwr academiaidd. Anfonwn ein cydymdeimlad at Lis a'r teulu.

Ymgyrch aelodaeth. Mae ein pamffledi aelodaeth newydd yn awr ar gael mewn archifdai, amgueddfeydd a llyfrgelloedd lleol. Hefyd fe'u dosberthir mewn cyfarfodydd cangen yn y gobaith y bydd yr aelodau presennol yn rhannu pamffledi i gymdeithasau ac unigolion eraill sydd â diddordeb ac y byddant yn gwahodd ffrindiau i ymuno.

PROSIECT GOGLEDD CONWY 2016. Bellach, rydym wedi cofnodi'r nodweddion pensaernïol yn fanwl yn y tai y cawsom y dyddiadau cymynu a gofnodwyd ym Medi. Bydd y rhain ac adroddiadau hanesion tai ar gael ar ein gwefan. Yn dilyn cyfarfod y Noson Agored Iwyddiannus ym Medi ym Metws-yn-Rhos, mae nifer o grwpiau bychain o bobl leol, o dan arweiniad Gill ac Ann o gangen Conwy, yn cyfarfod i ymchwilio i hanes tai a ffermydd lleol ym mhentref Llanelian-yn-Rhos.

Yn ystod Tachwedd am ddeng niwrnod, bu Arddangosfa o'n gweithgareddau yng Nghonwy yn Amgueddfa Llandudno; hefyd rhoddwyd dwy sgwrs ac ymwelodd grŵp ysgol â'r arddangosfa ddwyieithog. Llauer o ddiolch i'r oll a fu'n ymwneud â'r paratoi ac â stiwardio'r digwyddiad a hefyd i Amgueddfa Llandudno.



Rydym hefyd yn cydnabod yn ddiolchgar y grantiau a gawsom tuag at y prosiect hwn gan Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr, y Grŵp Pensaernïaeth Werinol, Cronfa Phillips Cymdeithas Henebion Llundain ac Ymddiriedolaeth Gaynor Cemlyn Jones. Rydym hefyd yn ddiolchgar i berchenogion tai a phobl leol am eu hymrwymiad parhaus.

PROSIECT GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU 2016-17. Gyda chymorth cymunedau ac unigolion lleol ar draws gogledd Sir Ddinbych a gorllewin Sir y Fflint bu ymweliadau i tua 130 o dai gan wahodd y perchenogion i gymryd rhan. Dewiswyd 35 tŷ i'w hymweld gan arbenigwyr o Labordai Dendrocronolegol Rhydychen tua diwedd Tachwedd ar gyfer asesu os yw'r coed derw gwreiddiol yn addas i'w

NEWS UPDATE

We are very sorry to have to record the death of our member **David Williams**, who researched the house histories of Bodwrdda and Penhyddgan in Llŷn. He was an eminent judge and academic lawyer. Our condolences go to Lis and the family.

Membership drive. Our new updated membership leaflets are now available at local archives, museums and libraries. They will also be distributed at branch meetings in the hope that current members will take leaflets to other interested societies and individuals and invite friends to join.

NORTH CONWY PROJECT 2016. Detailed architectural recordings have now been undertaken in the houses for which we obtained the tree-felling dates reported in September. These and the house history reports will soon be available on our website. Following the well-attended September Open Evening in Betws yn Rhos several small groups of local people, led by Gill and Ann from the Conwy branch, are meeting to research the history of local houses, farms and Llanelian yn Rhos village.

During November there has been a ten day Exhibition of our Conwy activities in Llandudno Museum; two talks were also given and a school group visited the bilingual display. Many thanks to all those involved in the preparation, stewarding of the event and to Llandudno Museum.



< ^ Arddangosfa/Exhibition Llandudno

We gratefully acknowledge grants towards this project from the Gwynt y Môr Community Fund, the Vernacular Architecture Group, the Society of Antiquaries of London Phillips Fund and the Gaynor Cemlyn Jones Trust. We also thank householders and local people for their continuing involvement.

NORTH EAST WALES PROJECT 2016-17. With the help of local communities and individuals across north Denbighshire and west Flintshire around 130 houses have been visited and owners invited to participate. 35 houses have been selected for visits by specialists from the Oxford Dendrochronology Laboratories in late November to assess whether the original oak timbers are suitable for sampling to obtain tree-

samplu ar gyfer cael dyddiad y cymynu. Gobeithir samplu 4-5 tŷ yn nechrau Rhagfyr a hwyrach samplu tai ychwanegol yng ngwanwyn 2017.



falling dates. It is hoped to sample 4-5 houses in early December and maybe to sample additional houses in spring 2017.



< ^ v Tai G Ddn Cymru /N E Wales houses



Rhodddwyd sawl sgwrs ar “Ddarganfod Hen Dai Cymreig” i amrywiaeth o sefydliadau ar draws G.Ddn Cymru. Gobeithir datblygu cangen gogledd Sir Ddinbych/Sir y Fflint yn y gwanwyn i bobl sydd â diddordeb o Dreffynnon, Allt Melyd, Gwaunysgor, Rhuthun ac ardaloedd eraill, fel y gellir ymgymryd ag ymweliadau tai a gweithgareddau eraill. **Ar bob cyfrif cysylltwch â'r ysgrifennydd pe dymynech ymuno.**

GRANTIAU Rydym yn cydnabod yn ddiolchgar y grantiau a dderbyniwyd tuag at y prosiect hwn gan gronfa Woodtiger, AOHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Cronfa Marc Fitch a sefydliadau eraill. Gobeithiwn ehangu ymhellach y gweithgareddau hyn yn 2017-18.

Rydym hefyd yn cydnabod yn ddiolchgar y grant tuag at Gylchlythyrau 2016 gan Barc Cenedlaethol Eryri.

Hoffem **DDIOLCH** i aelodau yr holl ganghennau sy'n ymgymryd ag ymchwil i hanes tai ac i'r gymuned, yn cofnodi adeiladau, yn cysylltu â grwpiau cymunedol er mwyn darganfod tai sy'n newydd i ni ayyb. Yn 2017 rydym yn cynllunio i drefnu rhai cyfleoedd newydd ar gyfer yr aelodau.

OS YDYCH Â DIDDORDEB MEWN HEN DAI ond ddim eto yn aelod, pam na ystyriwch ymuno a'r Grŵp? Ysgrifennydd Aelodaeth yw Ms Zoë Henderson 01824 704404 zoehenderson123@btinternet.com. Am wybodaeth bellach cysylltwch â Margaret Dunn, yr Ysgrifenyddes secretary@discoveringoldwelshhouses.co.uk 01766 890550.

Many talks about “Discovering Old Welsh Houses” have been given to a variety of organisations across N E Wales. It is hoped to develop a north Denbighshire/Flintshire branch in the spring for interested people from the Holywell, Meliden, Gwaunysgor, Ruthin and other areas so that house history research, house visits and other activities can be undertaken. **Please let the secretary know if you would like to join in.**

GRANTS We gratefully acknowledge grants towards this project from the Woodtiger Fund, the Clwydian Range and Dee Valley AONB, the Marc Fitch Fund and other organisations. We hope to develop these activities further in 2017-18.

We also gratefully acknowledge a grant towards the 2016 Newsletters from the Snowdonia National Park.

THANK YOU to members from all branches who are undertaking house history and community research, recording buildings, liaising with community groups to discover houses new to us etc. In 2017 we plan to organise some new opportunities for members.

IF YOU ARE INTERESTED IN OLD HOUSES and are not already a member, why not consider joining the Group? The Membership Secretary is Ms Zoë Henderson zoehenderson123@btinternet.com 01824 704404. For further information contact Margaret Dunn, Secretary secretary@discoveringoldwelshhouses.co.uk 01766 890550.

DIGWYDDIADAU GRŴP

Yr hydref hwn, cafwyd ymweliad cyfareddol â thŷ a hefyd Ocsiwn Hen Bethau llwyddiannus, ond oherwydd diffyg diddordeb, bu'n rhaid canslo'r darlithoedd a drefnwyd ar gyfer misoedd Hydref a Thachwedd. Ni chynhelir unrhyw ddigwyddiad Grŵp yn y Gwanwyn. Fodd bynnag, rydym yn cynllunio i drefnu ymweliadau Grŵp yn gynnar yn yr haf; ni chynhelir Taith Astudio 2017.

DIGWYDDIADAU CANGEN: archebwch â chysylltydd cangen, fel arfer@ £2.

CANGEN MÔN - ARFON

Cyswllt: Peter Masters: datinggoldwelshhouses@gmail.com 01758 750322. **Mercher 11 Ionawr** Cyfarfod cymdeithasol a chynllunio dros ginio yn Nhafarn y Bachgen Du (Black Boy), Caernarfon.

CANGEN CONWY

Cyswllt: Tony Scharer: tonyscharer@gmail.com 01745 813027. **Mawrth 24 Ionawr** yn nhŷ Ann Morgan, Bae Penrhyn: cyfarfod i drafod gwaith allanol prosiect Gwynt y Môr 9.30-12.00. **Mawrth 28 Chwefror** yn nhŷ Gill yn Llanddulas. Sgwrs ac arddangos 'Fframwaith Coed' gan Tony Scharer. 9.30-12.00 nifer mwyaf 12 person. **Iau 23 Mawrth** yn nhŷ Gill yn Llanddulas: Sut i strwythuro astudiaeth o Bentref - trafodaeth, 9.30-12.00.

CANGEN SIR DDINBYCH

Cyswllt: Janice Dale: jadale22@hotmail.co.uk 01490 440427. (DS roedd y rhif hwn yn anghywir yn y Cylchlythyr diwethaf). **Gwener 9 Rhagfyr** Hostel ieuencid Cynwyd, hanner dydd, Dowch a Rhennwch firi'r Nadolig. **Mawrth 17 Ionawr** Diwrnod Hyfforddiant gyda Kevin Matthias, Archifau Rhuthun. **Gwener 17 Chwefror** Cyfarfod Cangen Tŷ Shahla (bydd y cyfeiriadau'n cael eu hebostio) a hefyd ymweliad tŷ lleol.

CANGEN MEIRIONNYDD

Cyswllt: John Townsend: john@thetownsends.org.uk 01341 430262. **Mercher 7 Rhagfyr** am hanner dydd: Arddangosfa Fodel-Reilffordd Dolgellau, Capel Ebeneser, Heol Feurig, Dolgellau LL40 1AA, i'w ddilyn gan Noson Gymdeithasol Nadoligaidd yn Nhapas Tafarn y Gader, Felin Isaf, Dolgellau LL40 1AA. Angen archebu pryd am £12 y person. **Ion** i'w drefnu. **Sadwrn 18 Chwefror** am 1yp: Esgair Olwyn, Talsarnau LL47 6YB a Las Ynys Fawr, Harlech LL46 2UT. Mae Esgair Olwyn yn enghraifft dda o dŷ cerrig lloriog gyda thri bae yn steil glasurol ranbarthol Eryri er gwaethaf y newidiadau. Dyddiadau'r cymynu yw gaeaf 1594/95 a haf 1595. Mae Las Ynys Fawr, tŷ trillawr, yn deillio o'r 16eg ganrif, ac ar graig sydd wedi ei chloddio'n rhannol. Bu newidiadau iddo yn 1715 gan y Parch. Ellis Wynne. **Sadwrn 18 Mawrth** am 2yp: Cae'r March, Llanfachreth LL40 2DS, tŷ lloriog cynnar ar gynllun dwy uned gyda simdde ochrol. Mae'r dyddiad tebygol y codwyd ef (1542) yn awgrymu y cafodd'i godi yn union cyn tai cerrig lloriog math Eryri a ddyddiwyd gynharaf yn ôl blwyddgylchau.

NODYN ATGOFFA: Mae'r holl dai a grybwyllir yn y cylchlythyr hwn ac/neu sy'n gysylltiedig â DHDC yn eiddo preifat ac **nid ydynt ar agor** i'r cyhoedd.

LLAWER O DDIOLCH i Gangen Meirionnydd am eu cyfraniad at yr argraffiad hwn o'r cylchlythyr.

GROUP EVENTS

This autumn we held a fascinating house visit and a successful Antiques Auction, but through lack of interest, had to cancel the lectures planned for October and November. There will NOT be any Group events in the Spring. We do however plan to organise Group visits in the early summer; there will not be a 2017 Study Tour.

BRANCH EVENTS: book with branch contacts, usually @ £2.

ANGLESEY-CAERNARFONSHIRE BRANCH

Rep: Peter Masters: datinggoldwelshhouses@gmail.com 01758 750322. **Wed 11th Jan** Social and planning meeting over lunch at the Black Boy Inn, Caernarfon.

CONWY BRANCH

Contact: Tony Scharer: tonyscharer@gmail.com 01745 813027. **Tues 24th Jan** at Ann Morgan's house, Penrhyn Bay: meeting to discuss the outreach work of the Gwynt y Môr project 9.30-12.00. **Tues 28th Feb** at Gill's house in Llanddulas: Talk and demonstration of 'Timber Framing' by Tony Scharer. 9.30-12.00 max 12 persons. **Thurs 23rd March** at Gill's house in Llanddulas: How to structure a Village study - discussion, 9.30-12.00.

DENBIGHSHIRE BRANCH

Contact: Janice Dale: jadale22@hotmail.co.uk 01490 440427 (NB this number was incorrect in the last Newsletter). **Fri 9th Dec** YHA Cynwyd, noon, Bring and Share Xmas get-together. **Tues 17th Jan** Training Day with Kevin Matthias, Ruthin Archives. **Fri 17th Feb** Branch Meeting, Heather's house (directions will be emailed). **Fri 17th Mar** Branch Meeting, Shahla's house (directions will be emailed) and also local house visit.

MERIONETH BRANCH

Contact: John Townsend: john@thetownsends.org.uk 01341 430262. **Weds 7th Dec** at 12 noon: Dolgellau Model Railway Exhibition, Ebenezer Chapel, Meyrick Street, Dolgellau LL40 1LN followed by Christmas Social at 12.30pm at the Tafarn y Gader Tapas, Smithfield Street, Dolgellau LL40 1AA. Need to book meal: £12 per person. **January** To be arranged. **Sat 18th Feb** at 1pm: Esgair Olwyn, Talsarnau LL47 6YB and Las Ynys Fawr, Harlech LL46 2UT. Esgair Olwyn is a good example of a stone-built storeyed house of three bays in the classic Snowdonia regional style despite alterations. Felling dates of winter 1594/95 and summer 1595. Las Ynys Fawr is of 16th century origin, on rock partly excavated, 3 storeys. Altered in 1715 by the the Revd Ellis Wynne. **Sat 18th March** at 2pm: Cae'r March, Llanfachreth LL40 2DS, an early storeyed house of two-unit plan with lateral chimney. The likely date of construction (1542) suggests that it was built just before the earliest tree-ring dated storeyed houses of the Snowdonia type.

REMINDER: all the houses mentioned in this Newsletter and/or linked with DOWH are private property and are **NOT** open to the public.

MANY THANKS to the Merioneth Branch for their contribution to this issue of the newsletter.

TŶ ERYRI : Y DIWEDDARAF

Bellach mae tua 133 adeilad yng Ngogledd Cymru wedi cael eu dyddio yn ôl blwyddgylchau. Mae bron y cyfan ohonynt yn dai ac yn amrywio o ran dyddiad o'r bedwaredd ganrif ar ddeg drwodd hyd at ganol y ddeunawfed ganrif. O'r 133, gellir ystyried deugain ohonynt yn 'Dai Eryri' gyda chryn sicrwydd. Mae'r term yn cyfeirio at rhywbeth sy'n llawer mwy penodol na thai syml wedi eu lleoli yn Eryri ac yn wlad o amgylch. Cawsont eu cydnabod fel math o arbenigedd ranbarthol gan Peter Smith yn y 70au, ac enillodd y term sylw yng nghyhoeddiad *Darganfod Hen Dai Hanesyddol Eryri* yn 2014 – llyfr a gydolygwyd gan Richard Suggett a Margaret Dunn ac yn seiliedig ar arbenigedd ac ymrwymiad gwirfoddolwyr a haneswyr adeiladu proffesiynol fel rhan o Brosiect Dendrocronoleg gogledd orllewin Cymru, rhagfaenydd ein grŵp ni, sef Grŵp Darganfod Hen Dai Hanesyddol Cymreig.



Tŷ canoloesol / Medieval house (Eifionydd)

Ymddangosodd 'Tŷ Eryri' yn yr unfed ganrif ar bymtheg fel annedd cymharol gryno, wedi ei adeiladu o gerrig ac i gyd yn ddeulawr. Roedd yn cyferbynnu'n ddramatig â'r tŷ canoloesol lle roedd y brif ystafell neu'r neuadd, yn agored hyd at y to, ac yn cael ei chynhesu gan dân agored, a achosai ymhen amser, i goed y to gael eu pardduo gyda haenau o barddu. Gwresogid 'Tŷ Eryri' gan un corn simnai sylweddol yn gweithredu yn y neuadd/cegin; roedd y brif siambr ar y llawr cyntaf hefyd yn cael ei chynhesu, fel arfer gan le tân a oedd wedi ei gorbhelu ar ben arall y tŷ i'r neuadd. Roedd y lefelau digonol o wresogi a'r palisau pren cryfion a godai i fyny hyd at uchder llawn y tŷ – gan leihau cilwyntoedd a chynnig lefelau cynyddol o breifatrwydd – yn rhoi cymeriad arbennig i'r adeiladau hyn a'u gwneud yn neilltuol. Ac eto i gyd, roedd rhai nodweddion canoloesol yn goroesi, fel y cyntedd croes, rhan gyffredinol o dŷ neuadd agored a'r

THE SNOWDONIA HOUSE: AN UPDATE

Around 133 buildings in North Wales have now been tree-ring dated. Almost all of these are houses and they range in date from the late fourteenth through to the mid eighteenth centuries. Of the 133, forty can be termed 'Snowdonia Houses' with reasonable confidence. This term refers to something much more specific than simply houses situated in and around Snowdonia. Recognized as something of a regional speciality by Peter Smith in the 1970s, the term gained traction with the publication in 2014 of *Discovering the Historic Houses of Snowdonia*—the book co-authored by Richard Suggett and Margaret Dunn that built on the expertise and commitment of volunteers and professional building historians as part of the North-West Wales Dendrochronology Project, the precursor of our own Discovering Old Welsh Houses Group.



Tŷ Eryri / Snowdonia House (Meirionnydd)

The 'Snowdonia House' emerges in the sixteenth century as a relatively compact dwelling, built of stone and of two storeys throughout. It contrasted dramatically with the medieval house where the main room or hall, open to the roof, was heated by an open fire that, over time, blackened the roof timbers with layers of soot. The 'Snowdonia House' was heated by one substantial chimneystack that served the hall/kitchen; the principal first-floor chamber was also heated, normally by a fireplace that was corbelled out at the opposite end of the house to the hall. Ample levels of heating and sturdy partitions that rose through the full height of the house—reducing draughts and providing increased levels of privacy—marked these buildings out as special and distinctive. Even so, some medieval features survived: the cross passage, a universal component of the open hall house, hung on as did the division of the non-hall end at ground level into two small rooms—a parlour with an adjoining room for storage; and the roofs to the upper floor, at least at first, remained open, made to be seen and admired with wind braces and cusping, chamfered and stopped beams with decorative pegging. The builders of these houses—gentlemen in the main, including clerks of the peace and other crown officials, lawyers, members of families emancipated by Henry VII's abolition of servile status or men who bought these former bond lands at bargain prices—clearly embraced a degree of modernization but were also reluctant to jettison all the old traditions.

rhaniad ym mhen pellaf y neuadd ar lefel daear yn ddwy stafell fechan – parlwr gyda stafell gyfagos ar gyfer storio; a'r toeau i'r llawr uchaf; ac ar y dechrau roedd y toeau yn aros yn agored, yn amlwg i'r llygad ac yn cael eu hedmygu gyda chreffynnau a chysbau, trawstiau wedi eu siamffro a'u hatal gyda phegiau addurnedig. Roedd yn amlwg fod adeiladwyr y tai hyn – gwŷr bonheddig yn bennaf, yn cynnwys clercod heddwch a swyddogion eraill y goron, cyfreithwyr, aelodau teuluoedd a ryddhawyd drwy i Harri VII ddiddymu y statws gwasaid neu ddyinion a brynodd y tiroedd hyn a fu yn flaenorol dan gytundeb, am brisiau rhad – yn amlwg yn cofleidio rhywfaint o foderneiddio ond hefyd yn gyndyn i luchio allan yr oll o'r hen draddodiadau.

Mae'r gwaith a wnaethpwyd gan aelodau GDHDC er pan gyhoeddwyd *Darganfod* wedi cadarnhau neu wedi mireinio llawer o'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn ogystal â chodi cwestiynau newydd yn arbennig mewn tri maes: dyddio, datblygu a dosbarthu.

• *Dyddio* Gwelir tueddiadau newydd tebyg i'r rhai a welwyd yn 'Nhŷ Eryri' mewn mannau eraill yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd lloriau a chyrn simnai mewn neuaddau agored a daeth adeiladu tai newydd deulawr cryno yn gynyddol gyffredin yn ystod (ac wedi) trydydd chwarter yr unfed ganrif ar bymtheg. Mae 'Tai Eryri' a ddyddiwyd yn ôl blwyddgylchau hefyd wedi eu clystyru o fewn y cyfnod 1550-75. Eto rydym yn gwybod fod y math hwn o dŷ yn bodoli yn llawer cynharach na hyn. Mae Dugod ym Mhenmachno 1515-18 yn annisgwyl o gynnar, ond mae dendro-ddyddio diweddar wedi datgelu un cynharach fyth, sef Plas yn-Trofarth i'r dwyrain o Ddyffryn Conwy ymysg ffermydd uwchdir Llangernyw sy'n dyddio rhwng 1504-29 ac o bosib o fewn cyfnod cynharaf yr ystod dyddio.



Work carried out by DOWHG members since publication of *Discovering* has confirmed or refined many of the conclusions drawn there and has also raised new questions in three areas especially: dating, development and distribution.

• *Date* New trends similar to those seen in the 'Snowdonia House' are evident elsewhere in England and Wales. The insertion of floors and chimneystacks into open halls and the building of new compact two-storey houses became increasingly common in (and after) the third quarter of the sixteenth century. Tree-ring dated 'Snowdonia Houses' also clump within the period 1550-75. Yet we know the house type existed much earlier than this. Dugod in Penmachno of 1515-18 is unexpectedly early, but recent dendro-dating has revealed an even earlier one, Plas-yn-Trofarth to the east of the Conwy Valley among the upland farms of Llangernyw, which dates to between 1504-29 and probably within the earlier part of that date range (see illustrations below).



< ^ Plas-yn-Trofarth, Llangernyw, Conwy. This is the earliest 'Snowdonia House' so far dated by dendro-chronology—to maybe around 1510. Like many historic farmhouses it has been radically altered, so much so externally (in the 1950s) that you could easily drive past without noticing it. Inside it survives remarkably well: the picture shows the high-quality roof looking towards the smoke bay.

• *Development* Plas-yn-Trofarth is important, not only for its early date, but also for the fact that it contains evidence of a timber end stack or smoke bay that pre-dates the stone end stack (itself subsequently removed), a feature that characterizes the 'Snowdonia House' (PI 2). Early dated

^ > Plas-yn-Trofarth, Llangernyw, Conwy. Dyma'r 'Tŷ Eryri' cynharaf i'w ddyddio hyd yn hyn gan ddendrocronoleg – felly gall fod tua 1510. Fel nifer o ffermdai hanesyddol mae wedi cael ei newid yn sylfaenol, yn arbennig ar y tu allan (yn y 1950au) fel y gallech yn hawdd yrru heibio heb sylwi ar hyn. Oddi mewn, mae'n goroesi'n rhyfeddol dda; mae'r llun yn dangos y to o ansawdd da sy'n edrych tuag at y bae smygu.

•Datblygu Mae Plas-y-Trofarth yn bwysig, nid yn unig oherwydd ei ddyddiad cynnar, ond hefyd am y ffaith ei fod yn dangos tystiolaeth o stac blaen coed neu fae smygu sy'n gynharch na'r stac blaen cerrig (hyn yn cael ei ddileu yn ddiweddarach) arwedd sy'n nodweddu 'Tŷ Eryri' (Pl 2). Cynhyrfus a diddorol yw darganfod tai mor gynnar ond gall hyn roi camargraff o drawsffurfiad sydyn. Yn wir, araf oedd y newid. Gall simneiau pren fel yr un ym Mhlas-y-Trofarth fod wedi bodoli mewn tai a godwyd mor hwyr â 1550au a'r 60au. Mewn rhai tai 'cyn-Eryri' fe gadwyd y neuadd agored a gafodd ei llorio yn niwedd yrunfed ganrif ar bymtheg. Weithiau, buasai perchenogion y tai tair uned a neuadd agored yn chwlu'r stafell derfyn (hwyrach yn feudy o'r oes o'r blaen), llorio'r neuadd a throi eu cartref yn 'Dŷ Eryri' dwy stafell. Fodd bynnag, roedd nifer o dai neuadd agored ffrâm nenfforch Canoloesol yn dal i gael eu codi yn y 1530au a hyd yn oed, er yn llai aml, mor hwyr â'r 1570au. Er y gwelwyd tueddiadau, ar sail ffasiwn, cyfleustra ac economeg, mae dyddio blwyddgylchau yn dangos mor anwastad yr oeddynt ar draws y rhanbarth (gweler <http://datingoldwelshhouses.co.uk/English2/3d-timeline.html> i weld y nodwedd llinell amser 3d newydd).

houses are exciting to find but can give a false impression of sudden transformation. In fact, change came slowly. Wooden chimneys like that at Plas-y-Trofarth may have existed in houses built as late as the 1550s and '60s. Some 'pre-Snowdonia' two-unit houses retained an open hall, which was then floored over in the later sixteenth century. Owners of three-unit open hall houses occasionally demolished the end room (perhaps an outdated byre), floored the hall and turned their residence into a two-room 'Snowdonia House'. 'Medieval' cruck-framed open hall houses, however, were still being built in quite large numbers in the 1530s and even, although less frequently, as late as the 1570s. While there were trends, determined by fashion, convenience and economics, tree-ring dating indicates how uneven these were across the region (see <http://datingoldwelshhouses.co.uk/English2/3d-timeline.html> for the new 3d-timeline feature).



•Dosbarthiad Fel yr awgrymwyd yn *Darganfod*, gall fod y tŷ neuadd agored ffrâm nenfforch wedi ei warchod yn ddiwylliannol gan y tenant o ffarmwr ar raddfa fechan,

•Distribution As suggested in *Discovering*, it may be that the cruck-framed open hall house was the cultural preserve of the smaller-scale tenant farmer, perhaps maintaining an 'in-

hwyrach yn cynnal beudy yn y tŷ (fel rhan o dŷ hir) ac yn gwrthwynebu (neu yn methu â fforddio) ychwanegu llawr newydd (nid yw'n hawdd trosi nenffyrch yn dai deulawr}. Mae angen mwy o dystiolaeth, drwy blotio'r tai hyn o fewn ffiniau stadau y gwyddom amdanynt ac economïau ffermio rhanbarthol. Fel y mae hanes tai yn *Darganfod* yn dangos pan fo dystiolaeth ddogfennol ar gael, fod tai 'math Eryri' wedi eu cynllunio gan y bonheddwyr hynny a oedd yn gysylltiedig â chylchau aristocrataidd lleol a gwasanaeth y goron: mae Plas-yn-Trofarth hefyd yn ffitio'r patrwm hwn. Mae'n bosib fod 'Tŷ Eryri' wedi ei gynllunio nid yn unig i hybu cysur a phreifatrwydd ond hefyd i gyflwyno'r argraff ei fod wedi 'cyrraedd', yn gymdeithasol ac yn wleidyddol. Ond beth oedd y model a ddewiswyd gan y teuluoedd hyn i'w efelychu? Mae Richard Suggett yn awgrymu taw Castell Gwydir, y 'tŷ tŵr' lloriog, dwy uned o gerrig, oedd y prototeip – prif gartref y prif lwyth yn y rhanbarth. Os felly, gall y wybodaeth bresennol am ddosbarthiad 'Tai Eryri' (bron y cyfan ohonynt i'r gorllewin o Gonwy, ddweud dim ond hanner y stori. Gall fod y dosbarthiad wedi ei gamystumio yn ôl fel y gwnaethom samplu'r tai. O safbwynt Plas-yn-Trofarth, i'r dwyrain, gall fod mwy iddo nag a welir a gall fod mwy o'r tai hyn i'w gweld yng Nghonwy a gorllewin Sir Ddinbych. Yn sicr, mae'r tai lloriog, gwledig, cynharaf y gwyddom amdanynt yn Sir Ddinbych yn dyddio yn bennaf o ganol i ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg yn hollol wahanol eu cymeriad, naill ai o gerrig ac ar gynllun tair uned a mynediad drwy lobi neu gyntedd neu o ffrâm goed gyda jetties (estyniadau bargodol) ac addurniadau cymhleth yn adlewyrchu dylanwadau ymhellach i'r dwyrain. Mae stori 'Tŷ Eryri' yn dal i aros am ei phennod olaf.

Sylwer. O safbwynt Plas-yn-Trofarth gweler yr hanes tŷ ardderchog (gan Gill Jones ac Ann Morgan) a'r cofnod adeiladu (gan Ric Tyler) ar <http://datinggoldwelshhouses.co.uk/library>. Mae ein gwefan yn cael ei diweddarau'n gyson a gellir hefyd weld yma nifer o hanesion ac adroddiadau. Gellir yn hawdd gael mynediad i restr anodedig o'r holl dai dyddiedig yn ôl blwyddgylchau ar <http://www.vag.org.uk/dendro-tables/index.htm> (y gwefan y Grŵp Pensaerniaeth Werinol). Richard Suggett oedd yr un a ddarganfu'r bae smygu ym Mhlas-yn-Trofarth.

Martin Cherry, Meirionnydd

house' byre (as part of a longhouse) and resistant to (or unable to afford) adding a new storey (cruck frames are not easy to convert to two-floor houses). But more evidence is needed, plotting these houses within known estate boundaries and regional farming economies. As the house histories in *Discovering* show, where documentary evidence is available, it shows that 'Snowdonia Houses' were built by those gentry who were integrated into local aristocratic circles and crown service: Plas yn Trofarth also fits into this pattern. It is possible that the 'Snowdonia House' was designed not only to maximize comfort and privacy but also to project an impression of having 'arrived', both socially and politically. But what was the model these families chose to emulate? Richard Suggett suggests the two-unit stone, storeyed 'tower house', Gwydir Castle, was the prototype—the chief seat of the premier clan in the region. If so, the current known distribution of 'Snowdonia Houses', almost all of them to the west of the Conwy, may tell only half the story. It may be that the distribution is skewed by how we have sampled houses. Plas yn Trofarth, to the east, may be the tip of the iceberg and there may be many more to be found in Conwy and west Denbighshire. Certainly, the earliest known storeyed rural houses of Denbighshire, dating in the main from the mid- to late- sixteenth century are wholly different in character, being either stone houses with a three-unit lobby-entry plan or timber-framed buildings with jetties and elaborate decoration reflecting influences from further east. The 'Snowdonia House' story still awaits its final chapter.

Note. For Plas yn Trofarth see the excellent house history (by Gill Jones and Ann Morgan) and building record (by Ric Tyler) on <http://datinggoldwelshhouses.co.uk/library>. Our web site is constantly updated and many other histories and reports may be found here, too. An annotated list of all tree-ring dated houses in North Wales (revised 2016) is freely accessible on the Vernacular Architecture Group web site (<http://www.vag.org.uk/dendro-tables/index.htm>). It was Richard Suggett who identified the smoke bay at Plas yn Trofarth.

Martin Cherry, Merioneth



Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient
and Historical Monuments of Wales

MARC FITCH FUND

